YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2024 — Y Morlo - Miss John

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw i roi cyfle i'r dysgwyr i fod yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas a dechrau dysgu am anifeiliaid, cynnyrch a swyddi ar y fferm. Bydd cyfle i'r dysgwyr i fod yn ymholgar ac i ddatblygu corff o wybodaeth am fywyd ar y fferm trwy brofiadau uniongyrchol. Byddent yn ymchwilio i fywyd ar y fferm a dysgu am esblygiad y byd amaethyddol. Bydd deall ac ystyried effaith y byd amaeth ar sut yr ydym yn cynyrchu bwyd yn cyfrannu at ddatblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus y dyfodol.  Ceiff dysgwyr cyfleodd i ddatblygu i fod yn unigolion iach, hyderus trwy blannu hadau er mwyn tyfu llysiau. Ar ddiwedd yr uned ddysgu, bydd cyfle i'r dysgwyr cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth greu llyfr ffeithiol ar y cyd.

## Bant â ni i gynllunio!




Mae ffermwyr yn mynd â llysiau i'r siop.

Tanwen

Beth ydy enw ar got defaid?

Willow

Pam mae defaid yn cael eu gneifio?

Seb

Beth yw swydd y ci defaid?

Elin

Sut mae wyau yn dod o ieir?

Taron

Sut mae buwch yn rhoi llaeth i ni?

Solomon

Pa beiriannau sydd ar y fferm?

Poppy

Rydw i am geisio aradru cae.

Sid

Mae ffermwyr yn gyrru tractor.

Gwennie

Rydw i am ddysgu beth mae ffermwyr yn gwneud.

Aurora

**Dewis Ardal Chwarae Rôl**

**Siop fferm-21**

**Caffi fferm - 8**

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2024 — Y Morlo - Miss John



Syniad mawr y tymor hwn:

## Mŵ mŵ, mê mê, cwac cwac

Dyma rhai o'n syniadau.

**Iechyd a Lles**
- Dangos chwilfrydedd
- Mynegi a gwneud penderfyniadau
- Dangos gofal a pharch at eraill
- Mwynhau gwrando ar lyfrau lles ThinkEqual
- Ymarfer a datblygu fy sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd
- Dewis adnoddau er mwyn creu mygydau anifail y fferm
- Defnyddio adnoddau creadigol yn ddiogel

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'X' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Y Dyniaethau**
- Bod yn chwilfrydig am fy ardal leol
- Gofalu am bethau byw a'r amgylchfyd

## Ymweliad i'r fferm gymunedol 24/01/24

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

•Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
• Creu cornel chwarae rôl 'siop fferm'
•Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
• Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
• Dysgu am rhythm ac odl
• Ail ddweud ac actio streon
• Gweithgareddau Tric a Chlic ac Iaith ar Daith/Geirio Gwych
• Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
• Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. disgrifiadau, rhestr.

**Mathemateg a Rhifedd**

• Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
• Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif e.e. 5 hwyaden aeth i'r llyn
• Cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
• Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data
• Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
• Cyfathrebu drwy symbolau mathemategol ( +, -, =)
• Chwarae gêmau mathemateg pen a mwynhau datrys problemau syml yn ymarferol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Arsylwi ar anifeiliaid y fferm a gwneud arsylwadau
- Trin anifeiliaid yn y fferm gymunedol (Cadle)
- Adnabod bod anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu
- Adnabod ac enwi nifer o anifeiliaid y fferm
- Siarad am ffyrdd mae ffermwyr yn gofalu am anifeiliaid y fferm
- Plannu hadau a thyfu llysiau
- Arsylwi gylch bywyd cywion
- Defnyddio BeeBot i gynllunio taith o gympas y fferm
- Defnyddio dyfeisiau digidol i recordio llais